



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Adolygiad o'r Gronfa Galedi

Cyhoeddwyd fis Mehefin 2014

Cynnwys

Sail yr Adolygiad	3
Y Dull o Adolygu a'i Sail Resymegol	3
Beth oedd yr amcanion polisi a'r effeithiau arfaethedig?	3
Prif Ganfyddiadau	4
A yw'r Gronfa wedi'i thargedu ar y dioddefwyr priodol?	4
A yw'r Gronfa yn lliniaru caledi dioddefwyr ar gyflog isel iawn sy'n dioddef oherwydd troseddau treisgar?	8
A yw'r Gronfa yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon ac o fewn terfynau ei chyllideb?	9
Atodiad A – Y Cefndir	12
Beth yw'r Gronfa?	12
Pam y cyflwynwyd y Gronfa?	12
Dadansoddi Data	15
Ystyriaethau o ran Cydraddoldeb	16
Atodiad B – Data am Geisiadau i'r Gronfa Galedi a gafodd yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol rhwng Tachwedd 2012 a Chwefror 2014	17

Sail yr Adolygiad

1. Cytunodd y Llywodraeth y byddai adolygiad o'r Gronfa Galedi yn cael ei gynnal ymhen blwyddyn ar ôl ei chyflwyno er mwyn gwirio'r graddau y mae'r amcan polisi gwreiddiol yn cael ei gyflawni. Yr amcan hwn oedd lliniaru'r caledi a brofir ar y pryd gan ddioddefwyr ar gyflog isel iawn sy'n dioddef oherwydd troseddau treisgar ac sydd heb ffynonellau eraill o gymorth ariannol y gallant droi atynt.

Y Dull o Adolygu a'i Sail Resymegol

2. Pwrpas yr adolygiad hwn o'r Gronfa yw asesu a yw nodau'r polisi'n cael eu cyflawni ac mae wedi'i seilio ar adborth ansoddol oddi wrth yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (yr Awdurdod) a Cymorth i Ddioddefwyr. Caiff yr adolygiad ei asesu ar sail y tri maen prawf isod:
 - a yw'r Gronfa wedi'i thargedu ar y dioddefwyr priodol;
 - a yw'r Gronfa yn lliniaru caledi dioddefwyr ar gyflog isel iawn sy'n dioddef oherwydd troseddau treisgar;
 - a yw'r Gronfa yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon ac o fewn terfynau ei chyllideb.

Beth oedd yr amcanion polisi a'r effeithiau arfaethedig?

3. Diben y Gronfa yw lliniaru'r caledi a brofir ar y pryd gan ddioddefwyr ar gyflog isel iawn sy'n dioddef oherwydd troseddau treisgar yng Nghymru a Lloegr ac sydd heb ffynonellau eraill o gymorth ariannol y gallant droi atynt. Ei bwriad yw darparu cymorth ariannol dros dro i ddioddefwyr sydd ag anafiadau llai difrifol sy'n analluog i weithio dros dro. Mae'n darparu cymorth ariannol rhwng pedwerydd diwrnod ac 28ain diwrnod yr absenoldeb, ar yr amod bod yr ymgeisydd wedi bod yn rhy wael dros dro i weithio am gyfnod o 7 diwrnod yn olynol.

Prif Ganfyddiadau

A yw'r Gronfa wedi'i thargeddu ar y dioddefwyr priodol?

4. **Mae'n sicr bod y Gronfa wedi'i thargeddu ar ddioddefwyr ar gyflog isel iawn sy'n dioddef oherwydd troseddau treisgar ond dim ond wyth dioddefwr a gafodd ddyfarndal o'r Gronfa ers ei chyflwyno. Mae hyn yn awgrymu bod y meini prawf ar gyfer ymgeisio i'r Gronfa yn gyfyng iawn.**
5. Roedd Cymorth i Ddioddefwyr wedi ystyried y Gronfa Galedi mewn 1,356 o achosion rhwng Tachwedd 2012 a Chwefror 2014 ac, o'r rhain, roedd 16 lle'r oedd ceisiadau wedi'u hatgyfeirio at yr Awdurdod. Barnodd yr Awdurdod fod wyth o'r ceisiadau hyn yn anghymwys am ddyfarndal a bod wyth ohonynt yn gymwys.

Ar ba ddioddefwyr y mae'r Gronfa wedi'u targedu?

6. Mae'r Gronfa wedi'i thargeddu ar weithwyr sydd ar gyflog isel iawn sy'n analluog i weithio dros dro o ganlyniad uniongyrchol i ddioddef oherwydd trosedd treisgar (am hyd at 28 diwrnod). Mae'r Gronfa yn darparu taliad i ddioddefwyr a gafodd anafiadau sydd heb fod yn ddigon difrifol i'w cynnwys yn y tariff anafiadau yng Nghynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 ac sy'n bodloni'r meini prawf. Pwrpas y Gronfa yw lliniaru caledi ariannol y rheini sydd heb ffynhonnell arall o gymorth ariannol – er enghraifft, y rheini sy'n ennill llai na'r isafswm sy'n ofynnol i fod â hawl i dderbyn y Tâl Salwch Statudol¹ ac nad ydynt yn derbyn tâl o dan gynllun cyfatebol sydd wedi'i ddarparu gan y cyflogwr.

A yw pob un o'r dioddefwyr hyn yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol o'r Gronfa?

7. Nac ydynt. Bydd rhai dioddefwyr yn anghymwys os ydynt wedi cael collfarn droseddol sydd heb ddarfod a fyddai'n gwahardd eu talu o dan Gynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012. Mae Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 yn atal talu i unrhyw un a oedd â cholffarn heb ddarfod ar ddyddiad ei gais a oedd wedi arwain at ddedfryd o garchar neu orchymyn cymunedol. Yn achos collfarnau eraill sydd heb ddarfod, bydd y taliad yn cael ei leihau neu ei atal oni bai fod yr amgylchiadau'n eithriadol. Fel arfer ni fydd y taliadau'n cael eu lleihau os yw'r dioddefwr wedi cyflawni trosedd moduro a'r unig gosb a roddwyd yn ardystiad, pwynt cosb neu ddirwy o dan Atodlen 2 i Ddeddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988. Mae'n ofynnol hefyd fod y dioddefwr wedi hysbysu'r heddlu am ei anafiadau cyn gynted ag yr oedd yn rhesymol ymarferol (ond fel arfer o fewn 48 awr ar ôl y digwyddiad).

¹ Telir y Tâl Salwch Statudol i gyflogeion nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd salwch. Cyfradd bresennol y Tâl Salwch Statudol yw £87.55 yr wythnos am hyd at 28 wythnos.

A yw dioddefwyr cymwys yn gwybod am y Gronfa?

8. Fel arfer, bydd heddluoedd yn atgyfeirio dioddefwyr troseddau treisgar a all fod yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol o'r Gronfa at Cymorth i Ddioddefwyr, yr elusen genedlaethol sy'n helpu pobl y mae troseddu wedi effeithio arnynt. Mae'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau² yn rhoi dyletswydd ar yr heddlu i gynnal "asesiad o anghenion" gyda phob dioddefwr troseddau i bennu'r gefnogaeth neu'r wybodaeth y mae arno ei hangen i'w helpu i ymdopi ac ymadfer. Mae hyn yn cynnwys atgyfeirio at wasanaethau i ddiodesfwyr. Gall diodesfwyr eu hatgyfeirio eu hunain at Cymorth i Ddioddefwyr hefyd. Mae'n bosibl y bydd diodesfwr a all fod yn gymwys i dderbyn cymorth o'r Gronfa yn dewis peidio â mynd at Cymorth i Ddioddefwyr. Mewn achos o'r fath, mae'n bosibl na fydd yn gwybod am y Gronfa am nad oes cyfeiriad ati yn y daflen wybodaeth y mae'r heddlu wedi'i rhoi iddo.
9. Ers sefydlu'r Gronfa, mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi cynnwys tudalen sy'n egluro'r Gronfa ar ei wefan (<http://www.victimsupport.org.uk/Help-for-victims/How-crime-can-affect-you/The-Hardship-Fund>) ac wedi rhoi lle amlwg ar hafan ei gwefan i ddolen sy'n cysylltu â'r dudalen berthnasol.

A yw dioddefwyr cymwys yn cael digon o gyfle i wneud cais?

10. **Mae rheolwyr gweithredol yn Cymorth i Ddioddefwyr yn credu bod y terfyn amser ar gyfer gwneud cais yn rhy gaeth ac felly nad yw nifer o ddiodesfwyr yn cael digon o gyfle i wneud cais.** Mae'n ofynnol bod yr Awdurdod yn cael pob cais o fewn pedair wythnos ar ôl dyddiad y digwyddiad.
11. Er nad oes data gan Cymorth i Ddioddefwyr i ategu'r farn hon, mae adborth ansoddol oddi wrth reolwyr gweithredol yn dangos na fydd pob diodesfwr yn rhoi gwybod am drosedd ar unwaith, a bod modd cyfiawnhau oedi o'r fath yn aml am resymau personol. Gan amlaf, bydd diodesfwyr yn teimlo gofid a dryswch yn y cyfnod ar ôl trosedd treisgar. Gall eu bywyd fod yn ddi-drefn ar ôl trosedd treisgar a gall gymryd amser i ddiodesfwyr fagu digon o gryfder i lenwi ffurflenni cais, cadw apwyntiadau etc.
12. Bydd y gallu i ymadfer ar ôl trosedd yn amrywio. Mae'n bosibl y bydd angen i'r diodesfwr gymryd mwy o amser na'r disgwyl oddi wrth ei waith neu gallai gymryd amser i ffwrdd yn syth ar ôl y digwyddiad neu wedi i gyfnod fynd heibio. Erbyn i'r diodesfwr drefnu apwyntiad â meddyg, cysylltu â Cymorth i Ddioddefwyr, casglu'r dystiolaeth berthnasol a chadw'r apwyntiad, mae'n bosibl y bydd yr amser sydd ar ôl i gyflwyno cais yn brin iawn.
13. Pan sefydlwyd y Gronfa, sail resymegol y Weinyddiaeth Cyfiawnder wrth bennu cyfnod byr ar gyfer ymgeisio oedd sicrhau bod y ceisiadau'n rhai gan ddiodesfwyr a oedd yn profi caledi ar y pryd y byddai angen eu prosesu o fewn cyfnod byr iawn. Ond mae'n bosibl y bydd rhai diodesfwyr yn profi caledi'n

² <https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime>

ddiweddarach ac nid ar unwaith. Er enghraifft, os yw dioddefwr yn cael ei gyflog ar ffurf ôl-daliadau, mae'n bosibl na fydd yn sylweddoli ei fod mewn trafferthion ariannol nes iddo fod i ffwrdd o'i waith am fis. Fodd bynnag, mae angen cadw cydbwysedd yma rhwng yr agweddau hyn, natur y cynllun o ran helpu dioddefwyr sydd mewn caledi ar y pryd am nad ydynt yn gallu gweithio dros dro, a'r sicrwydd gweinyddol o gael amserlen bendant ar gyfer ymgeisio.

Argymhelliad 1: Bod y cyfnod ar gyfer ymgeisio i'r Gronfa Galedi rhwng y digwyddiad cychwynnol a dyddiad y cais yn cael ei ymestyn o bedair wythnos i wyth wythnos.

A yw ymgeiswyr yn llwyddiannus?

14. Yn ystod y cyfnod sy'n destun i'r adolygiad hwn, rhwng Tachwedd 2012 a Chwefror 2014, atgyfeiriwyd 16 o geisiadau at yr Awdurdod gan Cymorth i Ddioddefwyr a barnwyd bod wyth o'r ceisiadau hyn yn gymwys ar gyfer dyfarndal o'r Gronfa.

15. Y rhesymau dros wrthod ceisiadau oedd:

- bod un wedi'i gyflwyno ar ôl y terfyn amser
- bod un ymgeisydd nad oedd mewn cyflogaeth ar adeg y digwyddiad
- bod enillion dau ymgeisydd yn uwch na'r trothwy cyflog
- bod pedwar cais wedi'u dychwelyd i Cymorth i Ddioddefwyr oherwydd diffyg dogfennau ategol.

A yw dioddefwyr y bwriadwyd y Gronfa ar eu cyfer yn methu â chael cymorth?

16. Yn ôl adborth gan reolwyr Unedau Gofal Dioddefwyr Cymorth i Ddioddefwyr, roedd nifer mawr o ddioddefwyr nad oeddent yn bodloni'r meini prawf cymhwysra.

17. Cafwyd adborth oddi wrth arweinwyr Unedau Gofal Dioddefwyr (UGDau) Cymorth i Ddioddefwyr. Ymgynghorwyd â phum rheolwr UGD, dau Arweinydd Tîm UGD a dau Ddirprwy Gyfarwyddwr Ardal (rheolwyr llinell i reolwyr UGD).

18. Roedd rheolwyr UGD yn cytuno ei bod yn anodd cael at y Gronfa. Dywedodd Swyddogion Gofal Dioddefwyr nad oedd dioddefwyr yn aml yn gallu darparu'r wybodaeth yr oedd ei hangen i fodloni'r meini prawf wrth ddod i gysylltiad am y tro cyntaf.

19. Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn credu bod y meini prawf ar gyfer ymgeisio i'r Gronfa yn gaeth iawn. Mae data Cymorth i Ddioddefwyr ar gyfer y cyfnod rhwng Tachwedd 2012 a Chwefror 2014 yn dangos bod y Gronfa Galedi wedi'i hystyried mewn 1,356 o achosion. Nid oes data gan Cymorth i Ddioddefwyr am nifer y dioddefwyr a gafodd asesiad cychwynnol o gymhwysra dichonol gan fod hynny bellach yn rhan o'i 'asesiad o anghenion' safonol ac ni chesglir data ar wahân am geisiadau posibl i'r Gronfa.

20. Yn Ionawr 2014 rhoddwyd system rheoli achosion newydd ar waith gan Cymorth i Ddiodefwyr. Bydd y system hon yn caniatáu i Cymorth i Ddiodefwyr fonitro lefel y diddordeb yn y Gronfa, nifer y sgysiau cychwynnol ynghylch y Gronfa a nifer y diodefwyr a all fod yn gymwys sy'n ymgeisio i'r Awdurdod.

Argymhelliad 2: *Bod Cymorth i Ddiodefwyr yn casglu data sy'n dangos ym mha achosion y caiff y Gronfa ei hystyried. Bod y data hyn yn cynnwys:*

- *nifer yr ymgeiswyr a oedd yn gymwys i dderbyn cymorth o'r Gronfa*
- *nifer yr ymgeiswyr a oedd yn anghymwys i dderbyn cymorth o'r Gronfa*
- *y rhesymau dros ddiffyg cymhwystra.*

21. **Roedd Cymorth i Ddiodefwyr yn credu hefyd ei bod yn anodd iawn i bobl hunangyflogedig gwrdd â'r gofynion am dystiolaeth.**

22. Mae Cymorth i Ddiodefwyr wedi cael adborth ansoddol oddi wrth ei reolwyr UGD sy'n nodi bod y mater hwn wedi codi droeon. Mae diodefwyr yn ystyried eu ceisiadau mewn cyfnod o ofid. Gall y gwaith o ddod o hyd i waith papur, ei gopiö a'i gyflwyno fod yn ymdrech fawr ac anodd iawn i'r diodefwyr wrth ddechrau ymdopi ag effaith trosedd treisgar. Yn benodol, mae'n ofynnol bod ymgeiswyr hunangyflogedig yn darparu copi o'u ffurflen dreth ddiweddaraf i'r Gronfa er mwyn dangos bod eu hincwm yn llai na'r swm sy'n gymwys ar gyfer y Tâl Salwch Statudol (cyn treth). Os na fyddant yn gallu darparu'r dystiolaeth hon, ni fyddant yn cael taliad o'r Gronfa. Byddai ymestyn y cyfnod ar gyfer cyflwyno cais i'r Gronfa yn unol ag Argymhelliad 1 uchod yn helpu i liniaru'r broblem hon.

23. Mae'n destun pryder i Cymorth i Ddiodefwyr nad yw diodefwyr sy'n cael y Tâl Salwch Statudol yn gymwys i dderbyn taliadau o'r Gronfa. Mae Cymorth i Ddiodefwyr yn dadlau nad yw'r Tâl Salwch Statudol yn cwrdd â chostau byw mewn llawer achos. I ddibenion y Gronfa, ein diffiniad o gyflog isel yw enillion sy'n llai na'r isafswm sydd ei angen i fod â hawl i dderbyn y Tâl Salwch Statudol. Gan fod y Gronfa wedi'i sefydlu er mwyn helpu i lenwi'r bwlch ar gyfer gweithwyr ar gyflog isel iawn nad ydynt yn gymwys i dderbyn y Tâl Salwch Statudol, nid yw ystyriaeth ynghylch a yw'r Tâl Salwch Statudol yn ddigon i dalu costau byw yn dod o fewn cwmpas yr adolygiad hwn.

24. **Os bydd ymgeisydd wedi gwneud cais am ddyfarndaliad o dan y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol ac wedi'i farnu'n anghymwys, mae'n bosibl y bydd am wneud cais am ddyfarndaliad o'r Gronfa. Fodd bynnag, bydd wedi methu'r terfyn amser o bedair wythnos ar gyfer ymgeisio i'r Gronfa.**

25. Er bod ymgeisydd sydd wedi gwneud cais i'r Gronfa a heb lwyddo yn gallu gwneud cais ar ôl hynny o dan Gynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012, nid yw'r gwrthwyneb yn wir. Os bydd ymgeisydd wedi gwneud cais oherwydd anaf cymharol fach o dan Gynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 ac

wedi cael ei farnu'n anghymwys, bydd yr ymgeisydd wedi methu'r terfyn amser ar gyfer ymgeisio i'r Gronfa.

26. Mae'n bosibl y bydd staff a gwirfoddolwyr Cymorth i Ddiodefwyr yn elwa o gael cymorth a chyfarwyddyd ynghylch asesu'r ffordd orau o gynghori ymgeiswyr ar ymgeisio i'r Gronfa neu i'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol, yn enwedig mewn achosion ar y ffin lle y mae Cymorth i Ddiodefwyr yn ansicr a yw'r anaf wedi'i gynnwys yn y tariff anafiadau o dan y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol.

Argymhelliad 3: *Bod yr Awdurdod yn darparu hyfforddiant a chyfarwyddyd i Cymorth i Ddiodefwyr fel y bydd staff a gwirfoddolwyr Cymorth i Ddiodefwyr yn gallu rhoi'r cyngor gorau i ymgeiswyr ynghylch ymgeisio i'r Gronfa neu i'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol. Dylid cynnwys cyfarwyddyd ynghylch achosion ar y ffin lle y mae Cyngor i Ddiodefwyr yn ansicr a yw'r anaf ar y tariff anafiadau o dan y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol.*

27. Os nad yw diodefwyr yn gwybod am y Gronfa, mae'n bosibl y bydd yn gwneud cais o dan y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol heb ystyried a fydd yn gymwys i dderbyn cymorth o'r Gronfa yn lle hynny. Yn benodol, gall hyn ddioglydd mewn achosion lle nad yw'r diodefwyr wedi cysylltu â Cymorth i Ddiodefwyr a heb gael ei hysbysu am y Gronfa. Pan fydd diodefwyr yn hysbysu'r heddlu am drosedd, rhoddir taflen 'Gwybodaeth i Ddiodefwyr Troseddau' iddo sy'n cynnwys gwybodaeth am y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol ond sydd heb gyfeiriad at y Gronfa.

Argymhelliad 4: *Bod y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy sicrhau bod deunydd sy'n disgrifio'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol yn cyfeirio at y Gronfa, ac fel arall, fel bod diodefwyr mewn lle gwell i benderfynu i ba gronfa y dylent ymgeisio. Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn adolygu'r canllawiau ar-lein yn ogystal â'r wybodaeth y mae'r heddlu'n ei darparu i ddiodefwyr.*

A yw'r Gronfa yn lliniaru caledi diodefwyr ar gyflog isel iawn sy'n diodef oherwydd troseddau treisgar?

A yw ymgeiswyr llwyddiannus yn profi llai o galedi?

28. Mae Cymorth i Ddiodefwyr wedi cysylltu â phedwar ymgeisydd llwyddiannus i bennu a yw'r taliad a gawsant o'r Gronfa wedi lliniaru eu caledi. Nid oedd Cymorth i Ddiodefwyr wedi gallu cysylltu â'r pedwar ymgeisydd llwyddiannus arall. Roedd tri o'r pedwar ymgeisydd yn cytuno bod yr arian a gawsant o'r Gronfa wedi helpu i lliniaru eu caledi. Dywedodd un derbynnydd fod yr arian a gafodd wedi bod o gymorth ond nad oedd ond wedi gwneud gwahaniaeth bach.
29. Nid yw'r Awdurdod yn coladu data ynghylch sut y mae ymgeiswyr yn gwario eu taliadau. Mae Cymorth i Ddiodefwyr yn cynnal Arolwg o Ddefnyddwyr Gwasanaethau ond nid yw'r arolwg hwn yn cyfeirio'n benodol at achosion o galedi.

Argymhelliad 5: Bod Cymorth i Ddiodefwyr yn sefydlu dull o gysylltu ag ymgeiswyr llwyddiannus i gael adborth am effaith taliadau o'r Gronfa ac am y broses ymgeisio. Mae'r adborth hwn i'w ddefnyddio wrth ystyried unrhyw newidiadau yn y Gronfa yn y dyfodol.

30. Mae taliadau o'r Gronfa wedi'u seilio ar gyfradd wythnosol y Tâl Salwch Statudol. Mae'n darparu cymorth ariannol rhwng pedwerydd diwrnod ac 28ain diwrnod yr absenoldeb, ar yr amod bod yr ymgeisydd wedi bod yn rhy wael dros dro i weithio am gyfnod o 7 diwrnod yn olynol. Cyfradd bresennol y Tâl Salwch Statudol yw £87.55 yr wythnos.

A yw taliadau'n cwmpasu'r cyfnod o galedi?

31. Sefydlwyd y Gronfa er mwyn rhoi rhyddhad dros dro o galedi a brofir ar y pryd gan weithwyr ar gyflog isel iawn a'r sail resymegol i'r Gronfa yw y bydd caledi o'r fath yn amlwg ar unwaith. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, er y bydd y caledi'n cael ei ysgwyddo ar unwaith, mae'n bosibl na fydd yn dod i'r amlwg tan ychydig o wythnosau ar ôl y digwyddiad. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd y diodefwr wedi cael tâl am waith y mis blaenorol ar ffurf ôl-daliad. Efallai mai dim ond wedi i'r arian hwn gael ei wario ychydig o wythnosau ar ôl y digwyddiad y bydd y diodefwr yn profi caledi ariannol ac, erbyn hynny, ni fydd yn gymwys i wneud cais i'r Gronfa. Mae'n bosibl y bydd ymestyn y cyfnod ar gyfer ymgeisio i'r Gronfa o bedair wythnos i wyth wythnos yn unol ag Argymhelliad 1 yn helpu i leddfu'r problem hon.

A yw'r Gronfa yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon ac o fewn terfynau ei chyllideb?

32. Mae'r Gronfa yn cael ei gweinyddu'n effeithiol ac effeithlon. Mae costau'r Gronfa yn llai o lawer na'r gyllideb ar ei chyfer.

A yw'r broses ymgeisio yn gyflym ac effeithlon?

33. Ar ôl rhai problemau cychwynnol a diffyg cynefino â'r Gronfa ar ran Cymorth i Ddiodefwyr yn ogystal â'r Awdurdod, mae'r broses atgyfeirio wedi gweithio'n dda. Ar y cyfan, mae'r ceisiadau a gyflwynir yn awr yn gyflawn ac wedi'u hategu gan y dystiolaeth gywir. Roedd yr holl geisiadau wedi'u prosesu ar gyfer talu neu wedi'u gwrthod o fewn dau ddiwrnod wedi i'r Awdurdod gael y wybodaeth olaf. Yn y misoedd cyntaf ar ôl rhoi'r Gronfa ar waith, roedd yr Awdurdod wedi dychwelyd pedwar cais i Cymorth i Ddiodefwyr am fod y dystiolaeth a gyflwynwyd i'w hategu yn anghyflawn. Ar ôl hynny roedd Cymorth i Ddiodefwyr wedi cael bod yr achosion hyn yn anghymwys. Mae Cymorth i Ddiodefwyr wedi cyflwyno rhestr wirio i'w defnyddio gan wirfoddolwyr wrth helpu ymgeiswyr i lenwi eu ffurflenni cais.

Pa adnoddau y mae Cymorth i Ddiodefwyr a'r Awdurdod yn eu rhoi at weinyddu'r Gronfa?

34. Mae costau gweinyddu'r Gronfa yn fach.

35. Yn achos Cymorth i Ddiodefwyr, ni chafwyd unrhyw wariant cyfalaf. Mae'r costau am amser staff, paratoi deunydd hyfforddi a briffio staff a gwirfoddolwyr wedi dod o gyllidebau 'busnes fel arfer'.

Yr adnoddau *gweithredol* ar gyfer hyn yw:

- Amser yr UGD ar gyfer asesu cymhwystra diodefwyr drwy'r broses arferol ar gyfer asesu anghenion yn ogystal â llenwi'r rhestr gwirio cymhwystra;
- Amser gwirfoddolwyr i roi cymorth yn ystod y broses ymgeisio, er enghraifft, drwy drefnu apwyntiadau, cwrdd â diodefwyr i drafod eu hamgylchiadau ac ardystio ceisiadau a thystiolaeth. Cyn lansio'r Gronfa, roedd Cymorth i Ddiodefwyr yn rhag-weld y byddai llai o geisiadau'n cael eu gwneud o dan Gynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 fel y byddai digon o gapasiti ar gael i gyflawni'r gwaith hwn. Roedd y disgwyliad hwn wedi'i wireddu a gwelwyd bod angen llai o amser gwirfoddolwyr Cymorth i Ddiodefwyr i helpu i lenwi ceisiadau o dan y cynllun.

36. Yn achos yr Awdurdod, mae'r gwaith hwn wedi'i gyflawni fel rhan o'i fusnes arferol ac roedd y costau staff yn fach iawn. Mae ceisiadau i'r Awdurdod yn cael eu trafod gan saith aelod staff penodedig (dau swyddog achos, dau weinyddwr, dau benderfynwr ac un arweinydd tîm) gyda chymorth y Timau Cyllid a Pholisi. Ni chafwyd unrhyw effaith ar Weithrediadau na Chyllid oherwydd nifer bach y ceisiadau a'r defnydd o systemau all-lein presennol.

A yw costau'r Gronfa yn llai na'r gyllideb?

37. Ydynt. Uchafswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer y Gronfa bob blwyddyn yw £500,000. Cafodd yr Awdurdod gyfanswm o 16 o geisiadau i'r Gronfa rhwng Tachwedd 2012 a Chwefror 2014. Penderfynwyd ar yr holl geisiadau ac roedd wyth wedi'u derbyn ac wyth wedi'u gwrthod. Mae Atodiad B yn dangos mai'r cyfanswm a ddyfarnwyd rhwng Tachwedd 2012 a Chwefror 2014 oedd £1999.08.

Apelau a chwynion

38. Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad gan ymgeiswyr i'r Gronfa, fel y mae gan ymgeiswyr o dan Gynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012. Gwneir y penderfyniad terfynol gan yr awdurdod.

39. O dan y Cod Ymarfer i Ddiodefwyr Troseddau³ mae hawl gan ymgeisydd i ddod â chwyn i'r Awdurdod os yw'n credu nad yw wedi cael y wybodaeth a'r gwasanaethau y mae ganddo hawl i'w cael, ac i gael ymateb llawn gan yr Awdurdod. Nid yw Cymorth i Ddiodefwyr na'r Awdurdod wedi cael unrhyw gwynion ynghylch y Gronfa.

³ Cyhoeddwyd y Cod Ymarfer i Ddiodefwyr Troseddau yn Hydref 2013: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/259361/code-of-practice-victims-of-crime-welsh.pdf

40. Yn unol â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (ac yn dilyn yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd yn 2012) rydym wedi ystyried goblygiadau'r adolygiad hwn o ran cydraddoldeb. Yn gyffredinol, bydd y Gronfa yn parhau i hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb drwy wneud darpariaethau ar gyfer dioddefwyr ar gyflog isel iawn sy'n dioddef oherwydd troseddau treisgar. Bydd yr argymhellion yn hybu cyfle cyfartal drwy hyrwyddo defnydd teg o'r Gronfa ar gyfer pawb sydd â nodweddion gwarchoddedig. Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o gipio data am nodweddion cydraddoldeb y dioddefwyr sy'n defnyddio'r Gronfa.

Atodiad A – Y Cefndir

Beth yw'r Gronfa?

41. Sefydlwyd y Gronfa ar 27 Tachwedd 2012. Mae'n gronfa ddisgresiynol sy'n darparu rhyddhad dros dro oddi wrth galedi ariannol ar gyfer gweithwyr ar gyflog isel iawn nad ydynt yn gallu gweithio am y tro o ganlyniad uniongyrchol i fod yn ddioddefwr trosedd treisgar. Mae'r Gronfa yn darparu taliad i ddioddefwyr sydd ag anafiadau sydd heb fod yn ddigon difrifol i'w cynnwys yn y tariff anafiadau yng Nghynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012.
42. Mae'r Gronfa yn ceisio lliniaru caledi ariannol y rheini sydd heb ffynhonnell arall o gymorth ariannol – er enghraifft, y rheini nad ydynt yn derbyn y Tâl Salwch Statudol. Mae'r taliad wedi'i seilio ar gyfradd wythnosol y Tâl Salwch Statudol sy'n gymwys yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Bydd y Gronfa yn darparu cymorth ariannol rhwng pedwerydd diwrnod ac 28ain diwrnod yr absenoldeb, ar yr amod bod yr ymgeisydd wedi bod yn rhy wael i weithio dros dro am gyfnod o 7 diwrnod yn olynol. Mae terfyn uchaf ar y taliad sy'n cyfateb i'r Tâl Salwch Statudol ar gyfer pedair wythnos (heb gynnwys y 3 diwrnod cyntaf). Yn yr un modd â'r Tâl Salwch Statudol, ystyrir talu o'r Gronfa ar ôl pedwerydd diwrnod yr absenoldeb.
43. Rhaid i'r anallu i weithio fod yn ganlyniad uniongyrchol i anaf (corfforol neu feddyliol) a gafwyd o ganlyniad i fod yn ddioddefwr trosedd treisgar.
44. Mae terfyn uchaf o £500,000 y flwyddyn ar y Gronfa. Mae'r Gronfa yn gymwys i anafiadau a gafwyd yng Nghymru a Lloegr. Caiff ei gweinyddu gan yr Awdurdod ar ôl atgyfeirio cais ato gan Cymorth i Ddioddefwyr. Felly dim ond ceisiadau sydd wedi'u hatgyfeirio ato gan Cymorth i Ddioddefwyr y bydd yr Awdurdod yn eu hystyried.

Pam y cyflwynwyd y Gronfa?

45. Cyflwynwyd y Gronfa mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan ASau yn y Pwyllgor Deddfwriaeth Ddirprwyedig ar 10 Medi 2012 ynghylch diwygiadau'r Llywodraeth i'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol ac, yn benodol, newidiadau yn nhaliadau'r tariff o dan y Cynllun. Cyfeiriodd rhai ASau at feirniadaeth gan undebau llafur yng nghyswllt effeithiau posibl y diwygiadau ar weithwyr siopau a allai fod heb ffynhonnell arall o gymorth ariannol y gallent droi ati os byddant yn dioddef trosedd treisgar ac yn analluog i weithio o ganlyniad.
46. Mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn briodol canolbwyntio ar ddioddefwyr troseddau mwy difrifol wrth ddarparu digollediad ac mai ymateb mwy addas, yn achos dioddefwyr sydd ag anafiadau llai difrifol, yw cynnig cefnogaeth ymarferol ac emosiynol brydlon yn hytrach na symiau cymharol fach o ddigollediad. Fodd bynnag, mae dioddefwyr troseddau treisgar yn profi dioddefaint corfforol ac

emosiynol, yn ogystal â chaledi ariannol mewn rhai achosion am nad ydynt yn gallu gweithio o ganlyniad i'w hanafiadau. Mae caledi ariannol o'r fath yn destun pryder neilltuol i ddiodefwyr troseddau treisgar sydd ar gyflog isel.

47. Bydd rhai diodefwyr yn derbyn cymorth ariannol oddi wrth gyflogwyr drwy'r Tâl Salwch Statudol neu gynllun cyfatebol sydd wedi'i ddarparu gan y cyflogwr. Mewn achosion eraill, yn enwedig lle y mae'r diodefwr ar gyflog isel neu'n hunangyflogedig, mae'n bosibl na fydd cymorth ariannol ar gael yn ystod y cyfnod y bydd yn absennol o'i waith dros dro.
48. Mae'r Llywodraeth yn credu y dylid rhoi cymorth ariannol i'r grŵp olaf hwn o ddiodefwyr am gyfnod byr i liniaru'r caledi y byddant yn ei brofi ar y pryd o ganlyniad i fod yn analluog i weithio dros dro. Dyna pam y cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai Cronfa yn cael ei sefydlu ar gyfer diodefwyr o'r fath.

Cymhwysra

49. Gall ymgeiswyr fod yn gymwys i wneud cais o dan y Gronfa:
- a. os ydynt wedi cael anaf yng Nghymru neu Loegr ar neu ar ôl 27 Tachwedd 2012 o ganlyniad i fod yn ddiodefwr uniongyrchol oddi wrth drosedd treisgar. Mae diodefwr uniongyrchol yn rhywun a gafodd ei anafu'n uniongyrchol gan ymosodwr;
 - b. os ydynt yn analluog i weithio am gyfnod o saith diwrnod yn olynol o leiaf o ganlyniad i anaf (corfforol neu feddyliol) a gafwyd o ganlyniad i fod yn ddiodefwr uniongyrchol oddi wrth drosedd treisgar;
 - c. os ydynt yn ennill llai na'r lleiafswm sydd ei angen i gael yr hawl i dderbyn y Tâl Salwch Statudol;
 - d. os nad ydynt yn derbyn y Tâl Salwch Statudol neu gymorth o gynllun cyfatebol sydd wedi'i ddarparu gan y cyflogwr;
 - f. os nad ydynt wedi cael unrhyw gollfarnau troseddol sydd heb ddarfod a fyddai'n eu hatal rhag derbyn tâl o dan Gynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012;
 - g. os ydynt wedi rhoi gwybod i'r heddlu am eu hanafiadau cyn gynted ag yr oedd yn rhesymol ymarferol (ond o fewn 48 awr ar ôl y digwyddiad fel arfer).

Y Broses Ymgeisio: Rôl Cymorth i Ddiodefwyr

50. Wedi i'r heddlu neu'r diodefwr atgyfeirio achos at Cymorth i Ddiodefwyr, bydd staff Cymorth i Ddiodefwyr wedyn yn ceisio cysylltu â'r diodefwr dros y ffôn, drwy'r e-bost, neges testun neu lythyr, yn ôl y math o drosedd a dewis y diodefwr (os yw wedi'i nodi).
51. Ar ôl cysylltu â'r diodefwr, cwblheir asesiad o anghenion ac ystyrir effaith y trosedd ar y diodefwr a pha gefnogaeth y dylid ei chynnig. Yn ystod y broses hon, bydd Swyddogion Gofal Ddiodefwyr yn cael gwybod a gafwyd anaf,

graddau'r anaf hwn ac amgylchiadau presennol y dioddefwr (yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch, etc).

52. Wedi i Swyddog Gofal Dioddefwyr bennu y gall y dioddefwr fod yn gymwys i gael taliad o'r Gronfa, bydd yn llenwi rhestr gwirio cymhwysra. Datblygwyd y rhestr wirio hon gan Cymorth i Ddioddefwyr ar adeg sefydlu'r Gronfa.
53. Os bydd y rhestr wirio yn awgrymu bod y dioddefwr yn gymwys, caiff yr achos ei ddyrannu i weithiwr cymorth gwirfoddol a fydd wedyn yn cysylltu â'r dioddefwr rhag blaen er mwyn llenwi'r ffurflen gais.
54. Gan ei bod yn bosibl y bydd yn cymryd nifer o ddiwrnodau i brosesu'r cais ar gyfer y Gronfa, bydd Cymorth i Ddioddefwyr hefyd yn ystyried defnyddio cyllid Gwasanaeth a Gomisiynir Cymorth i Ddioddefwyr i ddiwallu unrhyw anghenion brys (er enghraifft, talebau bwyd).
55. Bydd staff yn bresennol bob amser gyda'r ymgeisydd wrth lenwi'r ffurflen gais ar gyfer y Gronfa. Mae hyn yn galluogi Cymorth i Ddioddefwyr i lenwi pob rhan o'r ffurflen ac i sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ategu'r cais wedi'i darparu a'i bod yn gywir. Wrth drefnu'r apwyntiad ar gyfer y Gronfa, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd dichonol am yr angen i gael copi o'r dystiolaeth y bydd yn rhaid ei hanfon gyda'r ffurflen gais er mwyn atal oedi. Ar y ffurflen mae angen enwi'r gwirfoddolwr a lenwodd y ffurflen a nodi enw a manylion cyswllt ei Reolwr Darparu Gwasanaeth: bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i wirio bod Cymorth i Ddioddefwyr wedi cymryd rhan ac i gysylltu â'r aelod staff priodol os bydd unrhyw gwestiynau'n codi.
56. Ar ôl trefnu'r apwyntiad a chyflwyno'r ffurflen, bydd system rheoli achosion Cymorth i Ddioddefwyr yn cael ei diweddarau i ddangos bod y cais wedi'i gyflwyno.

Y Broses Ymgeisio: Rôl yr Awdurdod

57. Wedi i'r Awdurdod gael ffurflen gais wedi'i llenwi oddi wrth Cymorth i Ddioddefwyr, bydd yn cysylltu â'r heddlu i gadarnhau manylion y digwyddiad ac yn cynnal gwiriad cofnodion troseddol i gael gwybod a yw'r ymgeisydd wedi cael unrhyw gollfarn sydd heb ddarparu y bydd yn rhaid ei hystyried.
58. Ar ôl cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad, bydd yr Awdurdod yn ceisio prosesu ceisiadau o fewn chwe diwrnod gwaith ar ôl cael yr holl ddogfennau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cymorth amserol yn cael ei ddarparu i'r rheini sy'n wynebu caledi ariannol ar y pryd ar ôl cael anaf troseddol.

Gweithio Cydgysylltiedig

59. Mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi pennu person 'cyswllt gweithredol' sy'n cydweithio â'r Awdurdod. Mae'r person cyswllt hwn wedi cydweithio â Phennaeth Rheoli Rhaglenni Cymorth i Ddioddefwyr i ddatblygu eu dull o drafod y Gronfa.

60. Bydd y person cyswllt gweithredol yn bresennol mewn cyfarfod chwarterol â'r Awdurdod (Fforwm Polisi a Chydraddoldeb) lle y mae'r Gronfa yn eitem sefydlog ar yr agenda. Yn gyffredinol, bydd hefyd yn cwrdd â Rheolwr Polisi a Rheolwr Perthnasoedd yr Awdurdod ar wahân i drafod unrhyw weithgarwch arall rhwng Cymorth i Ddiodefwyr a'r Awdurdod neu gamau y mae angen eu cymryd.
61. Mae'r berthynas yn un gadarnhaol ac yn cynnig cyfle i drafod a nodi unrhyw anawsterau er mwyn delio â nhw.
62. Mae'r Awdurdod yn darparu adroddiadau misol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n dangos y prif ffigurau am y ceisiadau a gafwyd gan gynnwys data am nifer y ceisiadau llwyddiannus, y nifer a wrthodwyd ac unrhyw geisiadau sydd heb eu penderfynu.

Hyfforddi Staff: Cymorth i Ddiodefwyr

63. Mae staff a gwirfoddolwyr Cymorth i Ddiodefwyr wedi cael cyfarwyddyd ynghylch y Gronfa oddi wrth y Weinyddiaeth Cyfiawnder a lluniwyd dogfen ganllaw i staff sy'n egluro sut i wneud ceisiadau a sut i reoli atgyfeiriadau. Mae'r ddogfen hon ar gael o hyd ar wefannau mewnwyd Cymorth i Ddiodefwyr. Yn ogystal â hybu ymwybyddiaeth o'r dull o weithredu'r Gronfa, mae Cymorth i Ddiodefwyr wedi cydnabod y gall diodefwyr gael eu hadnabod gan wirfoddolwyr 'yn y maes', felly mae Cymorth i Ddiodefwyr wedi tynnu sylw at y meini prawf cymhwysra drwy ei sianeli cyfathrebu mewnol ac wedi ailgyhoeddi'r meini prawf mewn iaith gliriach. Er mwyn hybu ymwybyddiaeth o'r Gronfa ymysg diodefwyr, mae Cymorth i Ddiodefwyr wedi llunio pecyn hyfforddi i wirfoddolwyr a staff rheng flaen.

Hyfforddi Staff: yr Awdurdod

64. Cyflwynwyd trosolwg o'r Gronfa i aelodau gwreiddiol tîm y Gronfa gan aelod o dîm hyfforddi'r Awdurdod. Wedyn cynhaliwyd hyfforddiant desg/achos byw gyda holl aelodau'r tîm pan gafwyd yr achos cyntaf yn Ionawr 2013 ac mae hyn wedi parhau wrth i aelodau newydd ymuno â'r tîm.

Dadansoddi Data

65. Mae data wedi'u casglu ar gyfer yr adolygiad hwn (gweler Atodiad C) ynghylch:
- Achosion lle'r oedd Cymorth i Ddiodefwyr wedi ystyried y Gronfa
 - Nifer yr ymgeiswyr a atgyfeiriwyd at yr Awdurdod gan Cymorth i Ddiodefwyr
 - Nifer a gwerth y dyfarndaliadau gan yr Awdurdod ym mhob mis
 - Nifer y taliadau y mis
 - Cyfanswm y gwariant ym mhob mis.

Ystyriaethau o ran Cydraddoldeb

66. Rydym wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar adeg sefydlu'r Gronfa⁴. Roedd yr asesiad hwn yn dangos bod y Gronfa yn debygol iawn o fod o fudd i ddioddefwyr troseddau treisgar sy'n ennill incwm o lai na £5,000 y flwyddyn sydd rhwng 16 a 29 oed ac sydd yn wrywod.

⁴ www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/217303/hardship-eia.pdf

Atodiad B – Data am Geisiadau i'r Gronfa Galedi a gafodd yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol rhwng Tachwedd 2012 a Chwefror 2014

	Tach 2012	Rhag 2012	Ion 2013	Chwe 2013	Maw 2013	Ebr 2013	Mai 2013	Meh 2013	Gor 2013	Awst 2013	Medi 2013	Hyd 2013	Tach 2013	Rhag 2013	Ion 2014	Chwe 2014
Misol																
Ceisiadau a Gafwyd	0	0	1	2	4	2	0	3	1	1	0	1	0	1	0	0
Ceisiadau a Wrthodwyd					1			2	1	1				1		
Nifer y Taliadau				2	2	2		1				1				
Cyfanswm y Gwariant £				515	368	515		294				307				
Cronnol																
Ceisiadau a Gafwyd			1	3	7	9	9	12	13	14	14	15	15	16	16	16
Ceisiadau a Wrthodwyd					1	3	3	5	6	7	7	7	7	8	8	8
Nifer y Taliadau				2	4	6	6	7	7	7	7	8	8	8	8	8
Cyfanswm y Gwariant £				515	883	1,398	1,398	1,692	1,692	1,692	1,692	1,999	1,999	1,999	1,999	1,999

© Hawlfraint y Goron 2014

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r ail fersiwn o'r Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/ neu anfonwch neges e-bost i PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk Os nodwyd bod deunydd yn eiddo i drydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd gan y deiliad hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn Ministerial.correspondence@justice.gsi.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i Harjit.Jassal@justice.gsi.gov.uk